Louise Shute

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn Ymddiriedolwr?

Rwy'n rheolwr Aelodaeth a Rhaglen profiadol sy'n frwd am ddod â phobl ynghyd i ddylanwadu, cydweithio a diwallu anghenion cymunedau wrth yrru newid cymdeithasol. Mae gennyf brofiad yn y sectorau elusennau, tai, addysg ac iechyd. Rwy'n llunio cynigion aelodau ar sail mewnwelediadau a digwyddiadau sy'n ddiddorol ac yn fasnachol hyfyw. Mae gennyf brofiad o reoli rhaglenni a phrosiectau newid cymdeithasol sy'n grymuso pobl a chymunedau. Rwyf wedi arwain prosiectau gwella busnes a TG sy'n ystyried yr effaith ar bobl, technoleg a diwylliant. Rwy'n defnyddio egwyddorion dylunio gwasanaeth ac yn addasu gwasanaethau'n barhaus er mwyn diwallu anghenion aelodau a'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol. Fel ymddiriedolwr, byddem yn sicrhau llywodraethu cadarn, gan gyflwyno syniadau newydd ar sut rydym yn darparu ar gyfer ein haelodau. Byddem hefyd yn addasu i oresgyn heriau, gan sganio'r gorwel ac adeiladu dyfodol gwell i'r sector.